
IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO CBC GOGLEDD CYMRU
04/06/26

Aelodau Etholedig: Cynghorydd Gareth Jones (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Cynghorydd Andrew Parkhurst (Cyngor Sir y Fflint), Cynghorydd Ioan Thomas (Cyngor Gwynedd), Cynghorydd Carol Holliday (Cyngor Sir Ddinbych), a Chynghorydd Geraint Bebb (Cyngor Sir Ynys Môn).

Aelodau Lleyg: Nigel Rudd (Cadeirydd).

Aelodau Etholedig (Dirprwyedig): Cynghorydd Keith Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn)

Swyddogion eraill yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y Cydbwyllgor Corfforedig (CBC)), David Hole (Rheolwr Rhaglen Gweithredu'r CBC), Dewi A. Morgan (Swyddog Adran 151 – Cyngor Gwynedd), Sian Pugh (Dirprwy Swyddog Adran 151 – Cyngor Gwynedd), Sara Jane Jones (Uwch Gyfrifydd – Cyngor Gwynedd), Delyth Wyn Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi – Cyngor Gwynedd), Yvonne Thomas (Rheolwr Archwilio - Archwilio Cymru), Lora Williams (Arweinydd Archwilio - Archwilio Cymru), Mark Watkins (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro Interim y CBC), Menna Machreth (Uwch Swyddog Polisi Corfforaethol y CBC), Ffion Williams (Uwch Swyddog Gweithredol y CBC), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd), a Sera Whitley (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth – Cyngor Gwynedd).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Paul Rogers (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), William Parry (Aelod Lleyg), a Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio - Cyngor Gwynedd).

2. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Bu i Nigel Rudd gael ei ethol yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor ar gyfer 2026/27.

3. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2026/27

Penderfynwyd gohirio'r penodiad hyd y cyfarfod nesaf.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Tynnwyd sylw bod Aelodau'r Is-bwyllgor hwn yn cael eu henwebu, nid eu penodi, ac yn parhau i fod yn Aelod nes iddynt gynnig eu hymddiswyddiad ffurfiol i'r Swyddog Monitro.

Gofynnwyd am ddiweddariad ar recriwtio Aelodau Lleyg. Nodwyd bod enwebiadau wedi'u ceisio gan awdurdodau lleol ond nad oes unrhyw enwebiad ffurfiol wedi'u derbyn eto.

Hysbyswyd yr Aelodau, os na dderbynnir unrhyw enwebiadau gan awdurdodau lleol, y bydd rhaid hysbysebu'r swydd yn allanol.

Ychwanegwyd bod ymddiswyddiad wedi'i dderbyn yn ddiweddar gan un o'r Aelodau Lleyg a bod yr Is-bwyllgor ar hyn o bryd yn gweithredu gyda dau allan o'i dri Aelod Lleyg. Mewn ymateb i gwestiwn yn gofyn a allai'r Is-bwyllgor gael pedwar Aelod Lleyg, cadarnhawyd nad oes unrhyw rwystyr i ehangu nifer yr Aelodau Lleyg ac y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried.

Gofynnwyd hefyd am ddiweddariad ar recriwtio Aelodau, a hysbyswyd yr Is-bwyllgor y disgwylir dau ymddiswyddiad ar hyn o bryd gan Aelodau Dirprwyol ac felly bydd yr Is-bwyllgor yn dibynnu ar awdurdodau lleol am enwebiadau pellach.

6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Nodwyd mater gyda cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2025 a chadarnhawyd y byddai hyn yn cael ei drin y tu allan i'r cyfarfod. Penderfynwyd gohirio'r eitem hon a dod â'r cofnodion drafft diwygiedig i gyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor.

7. CYLCH GORCHWYL A RÔL YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd diweddariad ar lafar gan Mark Watkins, Swyddog Monitro.

TRAFODAETH

Atgoffwyd yr Aelodau fod sesiwn anffurfiol wedi'i chynnal cyn y cyfarfod ffurfiol i ganiatáu i'r Aelodau drafod y Blaengynllun Gwaith a phenderfynu beth sydd o fewn cwmipas y deuddeg mis nesaf a thu hwnt. Nodwyd y bydd gan yr Aelodau ddealltwriaeth eang eisoes o rôl a swyddogaethau Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio ar lefel awdurdod lleol. Diolchwyd i'r swyddogion am gynnal y sesiwn anffurfiol.

Tynnwyd sylw at y ffaith mai sicrwydd, adolygu a chraffu yw rôl yr Is-bwyllgor. Atgoffwyd yr Aelodau nad corff gwneud penderfyniadau gweithredol yw'r Is-bwyllgor hwn ac nad ydynt i ymwneud ag unrhyw beth sy'n agos at, neu'n debyg i, reolaeth weithredol y sefydliad.

Eglurwyd bod y rhaglen waith wedi'i hadeiladu o amgylch y cylch gorchwyl, sy'n cynnwys materion ariannol, risg, rheolaeth fewnol, rheoli perfformiad, cwynion corfforaethol cyffredinol, archwilio mewnol ac allanol, a datganiadau ariannol. Ychwanegwyd y dylai'r uchod gael eu profi gan yr Is-bwyllgor am ddigonolrwydd, effeithiolrwydd, cydymffurfiaeth statudol, rheoli risg a rheolaeth, a gwerth cyffredinol am arian. Nodwyd y dylid eithrio eitemau lle maent yn dyblygu gwaith y CBC ac unrhyw un o'i Is-bwyllgorau.

8. BLAENGYNLLUN GWAITH YR IS-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2026/27

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Watkins, Swyddog Monitro a Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC).

PENDERFYNWYD:

- Cymeradwyo Rhaglen Waith ar gyfer 2026/27.

- Cytuno y dylid trin y Rhaglen Waith fel dogfen fyw a'i hadolygu ym mhob cyfarfod cyffredin, gydag eitemau pellach yn cael eu hychwanegu pan fyddant yn dod o fewn Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor neu pan fyddant yn cael eu cyfeirio gan y Cydbwyllgor Corfforedig.
- Nodi bod y rhaglen wedi'i fframio o amgylch sicrwydd, digonolrwydd rheolaethau, effeithiolrwydd trefniadau, cydymffurfiaeth statudol a, lle bo hynny'n briodol, argymhellion i'r Cydbwyllgor Corfforedig.

TRAFODAETH

Eglurwyd y bydd y Rhaglen Waith yn offeryn sicrwydd byw, a dylid ei hadolygu'n rheolaidd a'i haddasu lle bo rheswm llywodraethu a/neu archwilio priodol i wneud hynny.

Diolchwyd i Swyddogion am y ddwy sesiwn hyfforddiant a gynhaliwyd ym mis Ebrill.

Mynegwyd pryder nad yw'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i gyflwyno i'r Is-bwyllgor eto, er bod yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol wedi'i raglennu i'w gyflwyno yng nghyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd ymlaen i ddatblygu Cynllun Archwilio Mewnol, ac yn anffodus nid oedd yn bosibl ei gwblhau mewn pryd oherwydd absenoldebau staff. Ychwanegwyd bod trafodaethau gyda'r Rheolwr Archwilio Mewnol wedi cadarnhau y bydd unrhyw waith brys sy'n codi yn cael ei wneud cyn cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor a bydd unrhyw ddiweddariadau'n cael eu hadrodd yn ôl. Cydnabuwyd bod cael Cynllun Archwilio Mewnol yn rhan o swyddogaethau statudol y Swyddog Adran 151.

Gofynnwyd beth oedd cynnwys y Cytundeb Lefel Gwasanaeth o ran archwilio mewnol ar gyfer y CBC. Eglurwyd bod trafodaethau'n dal i barhau rhwng Cyngor Gwynedd ac Uchelgais Gogledd Cymru ynghylch y Cytundeb Lefel Gwasanaeth, ond cadarnhawyd y bydd yn cynnwys nifer y dyddiau o ddarpariaeth archwilio mewnol, ymrwymadau i adrodd i'r Is-bwyllgor hwn yn ôl yr angen, cynllun archwilio mewnol yn seiliedig ar risg ar waith, a datblygiad o gofrestr risg gorfforaethol. Cytunwyd y byddai unrhyw ddiweddariad ynghylch cwblau'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth a chwblhau'r Cytundeb Archwilio Mewnol yn cael ei rhannu efo'r Aelodau cyn y cyfarfod nesaf.

9. STRATEGAETH RHEOLI RISG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC).

PENDERFYNWYD

Ystyriwyd cynnwys y Strategaeth Rheoli Risg ddrafft a chynnig sylwadau arno.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu bod ystyried y Strategaeth Rheoli Risg yn un o ddyletswyddau statudol creiddiol yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cadarnhawyd bod y CBC yn gyfrifol am gymeradwyo y Strategaeth, ond fod yn hanfodol i'r Is-bwyllgor gyflwyno sylwadau yn gynnar yn y broses o fabwysiadu y Strategaeth. Eglurwyd, yn dilyn ystyriaeth ac unrhyw addasiadau perthnasol a wnaed i'r Strategaeth yn seiliedig ar sylwadau'r Is-bwyllgor, y bydd y tîm arweinyddiaeth yn ystyried y Strategaeth

ac yn darparu sylwadau, ac yna bydd y Strategaeth yn cael ei hargymell gan y Prif Swyddog Cyllid i'r CBC i'w fabwysiadu.

Manylwyd mai bwriad y Strategaeth Rheoli Risg yw ffurfioli camau gweithredu ar gyfer y CBC a'r holl ddyletswyddau sy'n datblygu. Esboniwyd bod gan bob rhaglen a phrosiect unigol ei gofrestr risg eu hun, gyda swyddog arweiniol yn gyfrifol. Ymhelaethwyd bod risgiau lefel gwasanaeth hefyd yn bodoli a bod rheolwr gwasanaeth unigol yn gyfrifol am reoli'r risgiau yma.

Tynnwyd sylw at gamgymeriad yn y fersiwn Gymraeg o'r Strategaeth Rheoli Risg, gan gadarnhau bydd wedi'i gywiro erbyn i'r Strategaeth cael ei gyflwyno yn derfynol.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch staffio ac yn benodol, sut mae swyddogion sy'n gweithredu ar ran Cyngor Gwynedd ac Uchelgais Gogledd Cymru yn blaenoriaethu gwaith rhwng y ddau sefydliad. Cadarnhawyd bod Cyngor Gwynedd yn darparu llawer o swyddi ar ran Uchelgais Gogledd Cymru ond bod gwaith yn parhau i gytuno'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn ffurfiol. Eglurwyd y bydd y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn rhoi sicrwydd i swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru a Chyngor Gwynedd ynghylch lefel y gwasanaeth a'r gefnogaeth y maent yn disgwyl ei dderbyn ac/neu ddarparu.

Nodwyd hyd bod y Cytundeb Lefel Gwasanaeth wedi'i gytuno'n ffurfiol, y gall risgiau tymor byr godi ynghylch recriwtio.

Cadarnhawyd y bydd yr Is-bwyllgor hwn yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y Gofrestr Risg, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r CBC, er mwyn rhoi sicrwydd i'r Is-bwyllgor bod y trefniadau rheoli risg priodol ar waith ac yn cael y sylw priodol. Nodwyd ymhellach ei bod yn ddyletswydd statudol cyflwyno'r gofrestr risg gorfforaethol i'r Is-bwyllgor hwn.

Gofynnwyd beth yw rôl Archwilio Cymru fel archwilyr allanol o ran rheoli risg ar draws yr awdurdodau. Eglurwyd mai'r risg fawr sydd yn wynebu'r CBC a phob awdurdod lleol yw sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith a bod y rheolaethau hyn yn gweithio. Eglurwyd bod Archwilio Cymru yn sicrhau bod y trefniadau priodol a pherthnasol ar waith, gan gynnwys sicrhau bod y wybodaeth yng nghyfrifon y CBC yn seiliedig ar y rheolaeth fewnol gadarn.

Eglurwyd ymhellach bod ISA315 yn gyrru'r cynllun archwilio, a bod rhaid i Archwilio Cymru ystyried y risgiau, y corff a'r rheolaethau, yr amgylchedd, ac asesu meysydd lle gall datganiad ariannol fod yn anghywir. Nodwyd eu bod yn canolbwyntio ar risgiau uchel ac yn adrodd ar y risgiau a nodwyd trwy'r Cynllun Archwilio.

10. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLAETH TRYSORLYS 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi.

PENDERFYNWYD:

Derbyniwyd yr adroddiad ar gyfer 2025/26.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu ei fod yn darparu trosolwg o weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y CBC ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26.

Eglurwyd, yn ystod y flwyddyn ariannol 2025/26, yr arhosodd gweithgaredd rheolaeth trysorlys y CBC o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn y strategaeth ym mis Mehefin 2025. Ychwanegwyd bod £1.9m o log ar y buddsoddiadau wedi ei dderbyn.

Cadarnhawyd bod sefyllfa ar 31 Mawrth 2026 yn gryf iawn gyda buddsoddiadau o £56.4 miliwn sef yn bennaf arian y Cynllun Twf a Parth Buddsoddi sydd heb ei wario eto.

Cydnabuwyd y mathau o fuddsoddiadau sy'n cael ei wneud ar ran y CBC, a chadarnhawyd bod y rhain yn gyson gyda'r strategaeth a'r math o fuddsoddiadau mae Cyngor Gwynedd yn buddsoddi ynddynt sydd yn cynnwys Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, Awdurdodau Lleol, Cronfeydd Marchnad Arian a Swyddfa Rheoli Dyledion.

Tynnwyd sylw at yr adroddiad cydymffurfio sydd yn cadarnhau bod y gweithgaredd buddsoddi wedi cydymffurfio'n llawn gyda'r cyfyngiadau penodol a osodwyd.

Gofynnwyd am fanylion bellach ynghylch buddsoddiadau o fewn gwahanol siroedd, ac ynghylch hyd y telerau buddsoddi. Eglurwyd bod y telerau'n amrywio, ond eu bod fel arfer yn fuddsoddiadau tymor byr. Ychwanegwyd bod Arlingclose, sef ymgynghorwyr rheoli trysorlys y CBC, yn darparu gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar y siroedd y buddsoddir ynddynt.

Gofynnwyd sut mae'r Strategaeth Buddsoddi a'i dull yn cael ei asesu. Cadarnhawyd bod diogelwch yn dod cyn hylifedd a thwf, a lle mae buddsoddiadau tebyg yn cael eu hasesu a'u canfod yr un mor ddiogel â'i gilydd, dewisir y buddsoddiad gyda'r twf uchaf.

Gofynnwyd a oedd unrhyw fantais mewn buddsoddi yng Nghynghorau Gogledd Cymru yn unig. Eglurwyd nad ydynt yn buddsoddi mewn datblygiad economaidd yr awdurdodau lleol eraill, ond yn buddsoddi er mwyn caniatáu iddynt barhau â'u gweithrediadau. Amlygwyd bod buddsoddiadau mewn gwahanol gynghorau yn well na buddsoddiadau gan fanc, ac fel arfer maent yn fwy diogel. Ymhelaethwyd fod y buddsoddiadau hyn bob amser yn fyrdymor.

Gofynnwyd a fyddai buddsoddiad hirdymor yn cael ei ystyried i ddarparu Strategaeth Buddsoddi fwy cytbwys. Eglurwyd bod y Strategaeth Buddsoddi yn cynnwys yr arian parod nad yw wedi'i wario ar y Fargen Twf na'r Parth Buddsoddi. Nodwyd fod gan y CBC syniad eisoes o broffil gwariant y Fargen Twf a'r Parth Buddsoddi, ac mae'n fater o gydbwysu'r arian parod dros ben a chynllunio pryd y bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi yng Ngogledd Cymru ac yn natblygiad economaidd y rhanbarth.

Mewn ymateb i drafodaeth ynglŷn â chytundeb gyda Arlingclose, eglurwyd bod Arlingclose yn rhan o gytundeb Cyngor Gwynedd yn wreiddiol ond bod ganddynt bellach gytundeb ar wahân i roi cyngor yn uniongyrchol i'r CBC. Eglurwyd ei fod yn gytundeb 12 mis ac y bydd yn cael ei adolygu pan fydd y cytundeb yn dod i ben.

Mynegwyd pryder ynghylch sut mae'r CBC yn sicrhau bod buddsoddiadau'n cael eu hystyried o ran methiannau llywodraethu corfforaethol mewn mannau eraill. Esboniwyd bod gan Arlingclose restr o bartïon cymeradwy a rhestr o awdurdodau lleol na ddylai'r CBC fuddsoddi ynddynt. Pwysleisiwyd bod Arlingclose yn arbenigwyr yn y maes ac yn gwneud llawer o ymchwil, gan flaenoriaethu diogelwch pob tro.

11. POLISI CANMOLIAETHAU, SYLWADAU A CHWYNION

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams, Prif Weithredwr.

PENDERFYNWYD:

Ystyriwyd y Polisi Canmoliaethau, Sylwadau a Chwynion drafft ac argymell ei fabwysiadu gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan amlygu ei bod yn holl bwysig i'r CBC barhau i gryfhau ei drefniadau llywodraethu. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig i'r CBC gael agwedd glir a chyson o dderbyn unrhyw adborth, gan gynnwys trin cwynion yn deg, dysgu o unrhyw faterion a godwyd, a diwygio'r polisi os oes angen.

Cadarnhawyd bod Uchelgais Gogledd Cymru yn ymrwmo i gydymffurfio gyda'i ddyletswyddau cyfreithiol a'r safonau disgwylidig. Nodwyd ar ôl derbyn sylwadau'r Is-bwyllgor hwn, y bwriad yw cyflwyno'r polisi i'r CBC ei gymeradwyo a'i fabwysiadu, ac wedyn ei gyhoeddi ar wefan Uchelgais Gogledd Cymru.

Eglurwyd bod y polisi yn canolbwyntio ar y cwsmer a bod cyfathrebu clir yn bwysig iawn. Manylwyd fod y polisi yn egluro sut y gellir cyflwyno adborth, sut y bydd adborth yn cael ei drin, a phryd y dylid defnyddio'r polisi. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd mewnflwch pwrpasol ar gyfer cyflwyno adborth, yn ogystal â ffurflen ar-lein a'r opsiwn i ysgrifennu at Uchelgais Gogledd Cymru. Amlygwyd bod derbyn adborth gan y cyhoedd yn bwysig gan ei fod yn caniatáu i Uchelgais Gogledd Cymru dathlu llwyddiant, dysgu o gamgymeriadau, ac adnabod ffyrdd o wella.

Cadarnhawyd lle nad yw datrysiad yn bosibl, bod dull dau-gam i'r broses gwyno yn bodoli, a chyflwynwyd esboniad o'r dull hon.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gael y prosesau gorau mewn lle ar gyfer derbyn adborth. Ychwanegwyd fod rheolaeth dynn o'r ddogfen bolisi yn hanfodol a bod angen ei mabwysiadu i sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf o'r polisi yn cael ei defnyddio.

Cadarnhawyd bod datblygiad o'r ffurflen ar-lein ar dudalennau gwe Uchelgais Gogledd Cymru wedi cychwyn, yn dilyn cais am ddiweddariad gan yr Aelodau. Ychwanegwyd y byddai'r ffurflen hon yn ddwyieithog, ac y byddai mewnflwch dwyieithog hefyd wedi'i neilltuo i dderbyn yr adborth.

12. SEFYLLFA ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid (Swyddog Cyllid Statudol y CBC) a Sian Pugh, Pennaeth Cynorthwyol Cyllid.

PENDERFYNWYD:

Ystyriwyd y wybodaeth a'r penderfyniadau.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan fanylu ar sefyllfa alldro'r elfennau Cynllunio Strategol, Trafnidiaeth a Chorfforaethol eu natur. Cadarnhawyd bod cyfanswm y sefyllfa alldro net ar gyfer yr elfennau yma yn danwariant o £1.067 miliwn, a bod £600mil o'r tanwariant yma yn deillio o grantiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gyda rhain yn cael eu defnyddio i ariannu costau a oedd wedi'u cyllidebu yn wreiddiol.

Eglurwyd eu bod yn gofyn am gymeradwyaeth y Cydbwyllgor Corfforedig i drosglwyddo'r tanwariant i'r gronfa wrth gefn i ariannu gwariant yn y blynyddoedd dilynol wrth i weithgareddau a swyddogaethau'r Cydbwyllgor Corfforedig gynyddu. Ymhelaethwyd bod y Cydbwyllgor Corfforedig eisoes wedi cymeradwyo i dros £600mil o'r gronfa hon gael ei defnyddio fel rhan o gyllideb 2026/27 a byddai hyn wedyn yn gadael balans o tua miliwn yn y gronfa.

Tynnwyd sylw at sefyllfa alldro'r Cynllun Twf a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd bod cyfanswm y tanwariant yn £543mil gyda'r prif danwariant o dan y pennawd gweithwyr. Atgoffwyd Aelodau bod cyfraniadau partneriaid yn cyfateb i tua 20% o'r gyllideb yn unig, sy'n ffynonellau ariannu parhaol a ffynonellaua ddisodlir yn unig yw'r gweddill. Eglurwyd bod gofyn ar y Cydbwyllgor Corfforedig i beidio â defnyddio £61mil o'r gronfa wrth gefn ac i leihau y cyfraniad o'r grant Cynllun Twf i £868 mil, er mwyn gadael sefyllfa niwtral am y flwyddyn. Ychwanegwyd bydd y ffynonellau yma yn cael eu defnyddio i ariannu gwariant mewn blynyddoedd i ddod ac felly yn lleihau'r risg o fod angen cynyddu cyfraniadau'r partneriaid i'r dyfodol.

Cyflwynwyd diweddariad ar symudiad mewn cronfeydd y Cynllun Twf yn ystod y flwyddyn ynghyd â'u balansau ar 31 Fawrth 2026. Eglurwyd bod gronfa llog o £5m wedi'i neilltuo i ariannu costau benthyca yn y blynyddoedd i ddod a hynny wrth i'r gwariant ar y cynlluniau cyfalaf gymryd lle cyn derbyn yr arian grant gan y Llywodraeth. Cydnabuwyd bod balans y gronfa adnoddau ar 31 Mawrth 2026 yn £4.4m, ac mae bron i filiwn o'r gronfa yma wedi ei chlustnodi i'w defnyddio yng nghyllideb 2026/27.

Darparwyd diweddariad ar adolygiad diwedd blwyddyn rhaglen gyfalaf y Cynllun Twf ar gyfer 2025/26 a'r proffil gwariant o 2026/27 ymlaen. Nodwyd bod cyfanswm o £30.64miliwn o wariant wedi ei wneud ar y Cynllun Twf erbyn diwedd 2025/26. Ychwanegwyd bod gostyngiad net o £14.28m yn y gwariant ar gyfer 2025/26 o'i gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd yn Chwefror 2025 yn sgîl llithriad ar brosiectau.

Cyflwynwyd sefyllfa ariannol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, sydd yn dangos sefyllfa niwtral am y flwyddyn gyda'r gwariant o £290 mil yn cael ei ariannu gan grant llywodraeth Cymru.

Cadarnhawyd bod y cyllid grant yn swm penodol ac nad yw'n cynyddu gyda chwyddiant.

Gofynnwyd a dderbyniwyd unrhyw sylwadau ynghylch yr eitem yng Nghyfarfod y Bwrdd Portffolio ar 24 Ebrill ac yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ar 15 Mai. Cadarnhawyd na ofynnwyd unrhyw gwestiynau yn ystod Cyfarfod y Bwrdd Portffolio, ond bod cwestiwn wedi'i godi yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Lles Economaidd ynghylch sicrwydd bod yr arian yn y cronfeydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Gofynnwyd a oes canllaw ar gyfer canran y cronfeydd wrth gefn y dylai'r CBC eu dal yn erbyn y trosiant. Cadarnhawyd nad oes canllaw o'r fath yn bodoli, ond rheol gyffredinol yw

bod angen 2.5% - 5% o gronfa wrth gefn yn erbyn y gwariant gros. Nodwyd ymhellach fod £600 mil o gronfeydd wrth gefn wedi'u cynnwys er mwyn cadw'r ardolli lawr.

Esboniwyd bod dwy gyllideb ar gyfer y CBC yn bodoli, sef cyllideb y Cynllun Twf sy'n cael ei hariannu drwy grant gan y Llywodraeth, yr awdurdodau lleol, a'r pedwar corff addysg, a cyllideb y CBC sy'n cael ei gyflawni trwy godi ardoll ar y chwe chynghor. Pwysleisiwyd eu bod yn gwneud eu gorau i roi sicrwydd i'r awdurdodau lleol a'r CBC ynglŷn â sut mae'r reserfau yn cael eu defnyddio ac mae hwn yn cael ei ddangos yn y Cynllun Gwaith Tymor Canolig.

Gofynnwyd a oedd llithro mewn rhai prosiectau oherwydd ffactorau mewnol neu allanol, a beth fydd yr effaith ar y blynyddoedd i ddod. Cadarnhawyd bod unrhyw lithriad ynghylch y Cynllun Twf oherwydd ffactorau allanol amrywiol a rhoddwyd sicrwydd bod diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud bob amser, er y gall hyn arafu'r broses.

Mynegwyd pryder ynghylch natur uchelgeisiol cychwyn ar a chwblhau unrhyw brosiect cyfalaf o fewn un flwyddyn ariannol, gyda ffocws penodol ar brosiect Porthladd Mostyn gwerth £4 miliwn a gynlluniwyd ar gyfer 2026/27. Sicrhawyd mai'r cyfraniad ariannol gan y Cynllun Twf yw'r prosiect, ac nad yw adlewyrchiad o'r Rhaglen Ddatblygu. Cadarnhawyd y byddai'r prosiect yn cael ei adolygu'n gyson.

Cadarnhawyd y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cydbwyllgor Corfforedig am gymeradwyaeth ar 19 o Fehefin.

13. CYDBWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD - CYNLLUN ARCHWILIO ALLANOL 2026

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Yvonne Thomas, Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru.

PENDERFYNWYD:

Nodwyd a rhoi sylwadau ar Gynllun Archwilio Allanol 2026 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.

TRAFODAETH

Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Allanol 2026, gan nodi bydd yr Is-bwyllgor hwn yn derbyn y Cynllun Archwilio yn flynyddol. Bydd yn nodi'r gwaith archwilio mae Archwilio Cymru yn fwriadau ei wneud yn ystod y flwyddyn i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel archwiliwr allanol.

Atgoffwyd yr Aelodau na all unrhyw archwiliad roi sicrwydd cyflawn fod y cyfrifon wedi eu datgan yn gywir, ond eu bod yn dilyn rheolau penodol gan adrodd ar unrhyw gamddatganiad sy'n uwch na throthwy cydnabyddedig

Nodwyd nad oes gan Archwilio Cymru ffigwr gwariant gros cyfatebol ar gyfer 2024-25 ar gyfer y Cydbwyllgor Corfforedig. Mae'r ffigwr wedi ei seilio ar wariant gros 2024-25 y Bwrdd Uchelgais am rŵan. Cadarnhawyd y bydd y ffigwr yn cael ei ddiweddarau pan dderbynnir cyfrifon drafft ar gyfer 2025-26.

Darparwyd cyd-destun ar risgiau y Cynllun Archwilio, gan gynnwys risg 'Management Override', risgiau o ganlyniad i'r ffaith mai dyma'r flwyddyn gyntaf o gynhyrchu cyfrifon llawn y Cydbwyllgor yn dilyn trosglwyddiad y Bwrdd Uchelgais, a risgiau safonol a welir yn flynyddol yn y mwyafrif o gynlluniau archwilio.

Ymhelaethwyd bod amserlen cwblhau archwiliadau cyfrifon Llywodraeth leol wedi symud ymlaen mis o ddiwedd Hydref i ddiwedd Medi. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf o baratoi cyfrifon cyflawn ar gyfer y CBC, eglurwyd mai ffi amcan cyfrifedig ydi'r ffi archwilio'r datganiadau ariannol. Ychwanegwyd na all Archwilio Cymru wneud elw, felly os bydd y gwir ffi yn is, bydd Archwilio Cymru yn rhoi ad-daliad i'r CBC.

Nodwyd bydd copi o'r archwiliadau perfformiad drafft yn cael eu rhannu gyda'r Is-bwyllgor hwn i roi cyfle i gyflwyno sylwadau am gywirdeb ffeithiol cyn rhannu'r copi terfynol ar wefan Archwilio Cymru.

Tynnwyd sylw at ffocws yr archwiliad, gan amlygu nad oes unrhyw ffocws ar lefel y cronfeydd wrth gefn, llithriad prosiectau a chyflawniad y rhaglen, llywodraethu'r Cynllun Twf, na chyflawniad y Parth Buddsoddi. Cadarnhawyd nad yw'r materion hyn yn rhan o'r archwiliad cyfrifon, er y cadarnhawyd y bydd angen cynllunio ar gyfer y Parth Buddsoddi a'i drefniadau archwilio.

Gofynnwyd am fanylion pellach ynghylch yr archwiliadau perfformiad diweddar a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru, yn arbennig gan fod y ffocws wedi newid i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol a'r Cynllun Datblygu Strategol. Gofynnwyd hefyd a gynhaliwyd yr archwiliadau perfformiad hyn mewn Cydbwyllgorau Corfforedig eraill ac a fyddai allbwn cenedlaethol yn dilyn. Eglurwyd nad oedd yr wybodaeth ar gael ar hyn o bryd ac y byddai diweddariad yn cael ei rannu ag Aelodau y tu allan i'r cyfarfod.

Diolchwyd i'r swyddogion am y diweddariad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00 a daeth i ben am 12:00

(Cadeirydd)